# DAVID, REES (yn fyw yn 1746), Bedyddiwr Arminaidd cynnar

**Enw:** Rees David
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Bedyddiwr Arminaidd cynnar
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ni wyddys ond ychydig iawn amdano. Yn ôl Walter J. Evans (N.L.W. MS. 10327), yr oedd yn academi Caerfyrddin dan Perrott; ond yr unig enw tebyg yn rhestr Wilson (llyfrgell y Dr. Williams - copi yn N.L.W. MS. 373) o fyfyrwyr Perrott yw ' Rees Davies,' ac uniaethir hwnnw yno a Rees Davies o'r Canerw; nid yw'r naill ddywediad na'r llall yn gwbl argyhoeddiadol. Sut bynnag, nid gweinidog oedd Rees David, ond ysgolfeistr. Yn 1720 neu 1721 cyhoeddodd gyfieithiad o *Gyffes Ffydd* Cymanfa'r Bedyddwyr - cambriodolir hwn i Jenkin Jones o Lwynrhydowen, eithr nid yn unig byddai hynny'n annhebyg sut bynnag, ond arwyddir y cyfieithiad (a'r rhagair) â'r llythrennau 'R.D.' Ar y llaw arall, yn od ddigon, y mae Joshua Thomas yn rhoi'r clod i Rees David am *Llun Agrippa* 1723, cyfieithiad o lyfr Matthew Mead; y mae enw Jenkin Jones ar ei wyneb-ddalen ac ar ddiwedd ei ragair. Gellid meddwl mai tua Chastellnewydd Emlyn yr oedd Rees David yn cadw ysgol ar y dechrau; yr oedd yn un o'r gw  r a arwyddodd lythyr o Landysul at eglwys Rhydwilym yn 1725. Ond yn 1729 troes yn Armin, a symudodd i gadw ysgol yn Hengoed, lle'r oedd Charles Winter yn byw. Pan aeth hi'n helynt yn Hengoed (1730), gwrthododd Rees David gymrodeddu; ymadawodd â Hengoed ac ag enwad y Bedyddwyr, ac aeth i gadw tafarn yn sir Frycheiniog; yn Aberhonddu y bu farw, 'amryw flynyddau ar ôl 1746,' meddai Joshua Thomas, a'i hadwaenai ac a'i hystyriai'n 'ddyn moesol, tawel a didramgwydd' (*Hanes y Bedyddwyr*, 378-9).

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu